

## CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym :  
07903328655 e-bost : [johnmaclellan9@icloud.com](mailto:johnmaclellan9@icloud.com)

### COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.00y.h. DDYDD LLUN, CHWEFROR 6ed, 2017, YN Y GANOLFAN GYMUNED, LLANELIAN YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudur W. Jones; yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams, a'r Cynghorwyr D.Rhys Davies; Irwedd Griffiths; D.Gwyn Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Goronwy Davies; Eifion Evans; Ifor O.Jones a Bryn Jones.
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Dim.
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 9fed, 2017, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.
6. MATERION YN CODI -
  - 11.16/14(iv) Gormodedd o raeon yn yr afon. Fe fyddai'r mater hwn yn cael ei roi yn nwylo Mr. Dyfed Rowlands o Gyngor Sir Conwy.
  - 12.16/14(i) Gwteri yn yr ardal. Roedd y mater hwn wedi ei roi ar yr Archwiliad Ward gan y Cynghorydd Ifor Lloyd.
  - 12.16/14(ii) Ffordd Galch – Roedd y ffordd wedi cael ei gosod ar y gofrestr ar gyfer ei hatgyweirio, ac fe fyddai delio â hi ar sail rota.
  - 1.17/14(ii) Arllwys sbwriel yn ardal y Cyngor Cymuned. Fe wneid adroddiad am y materion hyn i'r Cyngor Sir yn ôl ble a phryd y gwelid hwy. Fe dynnodd y Clerc sylw'r Cyngor at lythyr a dderbyniwyd gan Mr. David Bulkley, Cadeirydd Cymdeithas Cadwraeth Betws yn Rhos, a oedd hefyd yn pryderu am yr arllwys sbwriel ac am flerwch cyffredinol y pentref. PENDERFYNWYD gwahodd Mr.Bulkley i gyfarfod mis Mawrth.

1.17/14(iii) Tyllau ffordd yn Nhŷ Newydd, Ffordd Gwyndy a chanol y pentref.  
Dywedodd y Cyngorydd Lloyd fod hyn ar yr Archwiliad Ward.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

1.17/7(i) Llythyr gan Mr. David Bulkley, Cadeirydd Cymdeithas Cadwraeth Betws yn Rhos. Darllenwyd y llythyr i'r Cyngor a phenderfynwyd eu gwahodd i gyfarfod mis Mawrth.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen Ionawr 21ain, 2017, sef:-

Cyfrif cymunedol .....£23,249.26

Cyfrif busnes .....£ 5526.16

Atgoffwyd aelodau bod £15,000 o'r cyfrif cymunedol yn arian a roddwyd i'r gymuned gan y parc heulol. Roedd hwn i'w drosglwyddo i gyfrif ar wahân unwaith yr oedd y pwyllgor grantiau wedi ei sefydlu. PENDERFYNWYD agor cyfrif banc cyn gynted â phosibl.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - CYTUNWYD I DALU'r holl eitemau a restrir isod:-

i. 2.17/10(i) Cyflog y Clerc .....£ 287.23

ii. 2.17/10(ii) HMRC...(Bacs)..... £ 71.81

iii. 2.17/10(iii) Cyfieithu, hanner y gost ..... .£ 18.00

11. CEISIADAU AM GRANT -

2.17/11(i) Sefydliad Calon Prydeinig (British Heart Foundation).

PENDEERFYNWYD peidio â chyfrannu y tro hwn gan y byddid yn trafod pob cais am grant yng nghyfarfod mis Ebrill.

12. MATERION CYNGOR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD.

4.16/12(i) Adroddiad yn ymwneud â materion Archwiliad Ward. Adroddodd y Cyngorydd Lloyd fod y cytundeb ynglŷn â thorri gwrychoedd sy'n bodoli ar hyn o

bryd yn mynd i gael ei newid, a bod hysbysebion am gynigion yn cael eu hanfon allan. Roedd Mr. Tom Gravett wedi mynd gyda'r Cynghorydd Lloyd a'r Clerc o amgylch yr ardal i'w hysbysu o'r materion yn yr archwiliad. Fe fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

2.17/14(i) Cais i glirio'r dail oddi ar y ffordd rhwng Dolwen a Bae Colwyn.

2.17/14(ii) Adroddwyd bod ceir yn parcio mewn man peryglus ar Ffordd Dolwen wrth y safle waith.

2.17/14(iii) Tyllau ffordd wrth Gefn Nen.

2,17/14(iv) Glanhau gwteri a ffyrdd yn anfoddhaol.

2.17/14(v)Gwnaed cais am gael gosod man pasio ar y ffordd o Tai i Ysgol Trofarth.

2.17/14(vi) Roedd y ffordd o Dan y Gopa, Abergele, i Bant Idda mewn cyflwrer sâl.

15. UNRHYW FATER ARALL

2.17/15(i) Dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2017/2018. PENDERFYNWYD derbyn y dyddiadau a gynigiwyd.

16. CYNLLUNIO - Dim.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 8.20y.h.

CADEIRYDD.....

DYDDIAD.....